**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru:**
**'Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: canllawiau statudol Cynghorau Cymuned a Thref'**

Rydym yn falch o gael y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

**Ein rôl**

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rydym yn ymchwilio i gwynion a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gorff o fewn ein hawdurdodaeth, sydd yn ei hanfod yn cynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned)
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrff noddedig.

Gallwn ystyried cwynion am ofal cymdeithasol a drefnwyd yn breifat neu ofal cymdeithasol a ariennir, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol ac, o dan amgylchiadau penodol, agweddau ar ofal iechyd a ariennir yn breifat.

Rydym hefyd yn ymchwilio i gwynion bod aelodau etholedig awdurdodau lleol wedi torri eu Codau Ymddygiad, sy'n nodi'r egwyddorion ymddygiad cydnabyddedig y dylai aelodau eu dilyn mewn bywyd cyhoeddus.

Bydd y pwerau ymchwilio ar ei liwt ei hun a roddwyd inni o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Deddf OGCC 2019) yn ein caniatáu i ymchwilio pan fydd tystiolaeth yn awgrymu y gall fod methiannau systematig, hyd yn oed os nad yw defnyddwyr gwasanaeth eu hunain yn codi cwynion. Sefydlodd y Ddeddf hefyd yr Awdurdod Safonau Cwynion (CSA) i ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi ymdrin â chwynion yn effeithiol gan ddefnyddio gweithdrefnau enghreifftiol, hyfforddiant a chasglu a chyhoeddi data.

**Adroddiadau Blynyddol**

Mae Deddf 2021 yn cyflwyno dyletswydd ar gynghorau cymuned a thref i lunio adroddiadau blynyddol. Mae’r canllawiau statudol drafft yn nodi y gallai’r adroddiadau hyn gynnwys ymateb i adroddiad blynyddol Pwyllgor Safonau (mewn achosion lle gwneir unrhyw argymhellion i’r cyngor cymuned/tref hwnnw).

Ar ben hynny, byddem yn dadlau y dylai’r adroddiadau blynyddol hyn hefyd gynnwys:

- faint o gwynion a godwyd am yr aelodau perthnasol
- beth oedd y cwynion hyn yn ymwneud ag; a
- canlyniadau’r cwynion hyn (gan gynnwys faint ohonynt a ddatryswyd yn lleol).

Gobeithiwn y byddai cyhoeddi’r manylion hyn yn helpu i wella ymwybyddiaeth a thryloywder safonau ymddygiad busnes cyhoeddus mewn cynghorau cymunedol a thref.  Credwn hefyd y gallai helpu i gyfyngu ar nifer y cwynion lefel isel sy’n cael eu codi yn y lleoliadau hynny ac sy’n cael eu cyfeirio yn aml i’n swyddfa, yn ogystal â dangos ydy’r prosesau datrys cwynion yn lleol yn effeithiol.

**Cynlluniau hyfforddi**

Rydym yn croesawu ac yn cefnogi’n gryf y cyfeiriadau at drefniadau hyfforddi yn y canllawiau statudol.

Mae'r canllawiau'n nodi bod yn rhaid i bob aelod feddu ar ddealltwriaeth ddigonol o'n canllawiau ar y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru.

Sylwch fod yn rhaid diweddaru’r ddolen a ddefnyddir yn yr adran honno a’i disodli â dolen i Ganllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer aelodau cynghorau cymuned a thref (Mai 2021).

**Sylwadau cloi**

Hyderwn y bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol i chi.  Os hoffech drafod ein sylwadau ymhellach, mae croeso i chi gysylltu ag Ania Rolewska, ein Pennaeth Polisi (ania.rolewska@ombudsman.wales).



**Nick Bennett**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**Mawrth 2022**